CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

TÎM COMISIYNU

ADRODDIAD MONITRO CONTRACT

Enw/cyfeiriad y darparwr: Radis, Uned 4, Parc Busnes De Clare, Heol Pontygwindy, Caerffili, CF83 2WA

Dyddiad yr ymweliad: Dydd Mawrth, 4 Mehefin 2019

Swyddog(ion) ymweld: Amelia Tyler: Swyddog Monitro Contractau, CBS Caerffili

Yn bresennol: Melanie Walters: Rheolwr y Gangen, Radis
Teresa Sparey: Rheolwr Cynorthwyol, Radis
Becki Sparey: Cydgysylltydd, Radis

1. Cefndir

1.1 Mae Radis yn ddarparwr cofrestredig gwasanaethau gofal cartref yng Nghaerffili ers mis Awst 2001. Ar 20 Mai 2019, roedd y sefydliad yn darparu oddeutu 1665.5 o oriau o ofal a chymorth yr wythnos i 207 o bobl yn y fwrdeistref sirol. Roedd hyn 124 o oriau yn llai ond 18 o bobl yn fwy o gymharu ag adeg yr ymweliad diwethaf.

1.2 Roedd yr ymweliad monitro'n canolbwyntio ar adolygu argymhellion a wnaed yn y gorffennol, dogfennau'n ymwneud â phobl sy'n cael gofal, ffeiliau staff a hyfforddiant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys yr adborth a gafwyd o arolygon a gynhaliwyd gyda chleientiaid a/neu berthnasau a gofalyddion. Er y cydnabuwyd nad yw'r gwasanaeth wedi'i gofrestru ar hyn o bryd o dan y ddeddfwriaeth newydd, mae'r offeryn monitro a ddefnyddiwyd yn mesur mewn perthynas â'r gofynion hyn er mwyn sicrhau bod popeth ar waith cyn y cofrestriad.

1.3 Cynhaliwyd yr ymweliadau monitro contract blaenorol ar 3 a 10 Ebrill 2018 ac ar yr adeg honno nodwyd 8 cam unioni a 5 cam datblygu. Aethpwyd ar ôl y rhain a nodir y canfyddiadau yn adran 2 isod.

1.4 Mae'r tasgau gofal a chymorth mae Radis yn eu cyflawni yn cynnwys gofal personol (e.e. cymorth â bathio, ymolchi, gwisgo, rhoi meddyginiaethau, cynorthwyo â gofal personol), gofal maeth (e.e. cymorth o ran bwyta ac yfed, paratoi bwyd a diodydd, a monitro cymeriant maethol), gofal symudedd (e.e. cymorth o ran codi o'r gwely a mynd i'r gwely, symudedd yn gyffredinol), a gofal domestig (e.e. cymorth o ran glanhau, siopa, gwaith tŷ arall, a threfnu apwyntiadau).

1.5 Gan ddibynnu ar y canfyddiadau yn yr adroddiad, rhoddir i Radis ragor o gamau unioni a chamau datblygu i'w cymryd. Camau unioni yw'r rheiny y mae'n rhaid eu

cymryd (fel y'u llywodraethir gan ddeddfwriaeth ac ati) a chamau datblygu yw'r rheiny y bernir eu bod yn arferion da.

2. Argymhellion blaenorol

2.1 Adolygiadau o gynlluniau personol i'r holl gleientiaid i gael eu cyflawni bob 3 mis yn unol â rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (16.1). Y terfyn amser gwreiddiol a bennwyd ar gyfer hyn oedd 31 Gorffennaf 2017.
Heb ei gyflawni. Roedd y ffeil gyntaf yn cynnwys tystiolaeth o adolygiad ar 09.04.18 ac er y cynhaliwyd 2 sgwrs monitro dros y ffôn nid oedd unrhyw dystiolaeth bod adolygiadau wedi cael eu cyflawni bob 3 mis. Nid oedd unrhyw adolygiadau yn yr ail ffeil ac esboniwyd bod hyn oherwydd gorbryder ac oherwydd bod y prif ofalydd yn cael anhawster, fodd bynnag, roedd yna holiadur monitro dros y ffôn wedi'i gwblhau. Yn y drydedd ffeil roedd 4 adolygiad ers dechrau 2018 ond nid oedd y rhain wedi cael eu cyflawni bob 3 mis yn unol â'r gofyniad.

2.2 Y Rheolwr i sicrhau bod gan yr holl ofalyddion gymwysterau addas a bod eu hyfforddiant gorfodol yn gyfredol. Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (35)
Cyflawnwyd yn rhannol. Gwelwyd y matrics hyfforddiant ar y system electronig a nodwyd bod yna fylchau a hefyd fod yna hyfforddiant oedd wedi dod i ben. Cydnabuwyd bod angen diweddaru'r matrics gan ei fod yn dal i gynnwys enwau gofalyddion oedd naill ai wedi gadael neu nad oeddent erioed wedi dechrau.

2.3 Gwybodaeth reolaidd ynghylch galwadau hwyr a galwadau a fethwyd i gael ei chyflwyno i'r tîm comisiynu bob chwarter. Contract gofal cartref, cymal 6.6.
Heb ei gyflawni. Nid yw'r tîm comisiynu wedi cael y wybodaeth hon eto. Nodwyd bod o leiaf 2 alwad a fethwyd wedi'u methu gan yr un aelod o'r staff a chymerwyd camau priodol i leihau'r perygl y byddai hynny'n digwydd eto.

2.4 Yr holl gynlluniau gofal a chynlluniau personol i gynnwys gwybodaeth gyson. Lle bo angen newidiadau, rhaid cysylltu â'r tîm perthnasol yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol. Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (15) a'r contract gofal cartref, cymal 8.3
Cyflawnwyd yn rhannol. Yn ystod yr ymweliad monitro edrychodd y swyddog monitro contractau ar ffeiliau 3 chleient. Nid oedd unrhyw sôn yn y cynllun gofal am ddefnyddio padiau ymataliaeth ac roedd anghysondeb ynghylch promtio neu roi meddyginiaethau yn y ffeil gyntaf. Nid oedd y trefnau dyddiol yn yr ail ffeil yn sôn o gwbl am gathetr neu badiau ymataliaeth. Nodwyd bod yr holl dasgau o'r cynllun gofal wedi cael eu trosglwyddo i'r cynllun personol yn y drydedd ffeil.

2.5 Pob ffeil staff i gynnwys ffotograff diweddar o'r unigolyn yn unol â rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (35, atodlen 1.1.)
Heb ei gyflawni. Ni welwyd unrhyw ffotograffau o'r staff ar y naill ffeil na'r llall yr edrychwyd arnynt yn ystod yr ymweliad.

2.6 Llofnodion i gael eu sicrhau ar yr holl gynlluniau personol gan yr unigolyn neu gynrychiolydd i roi tystiolaeth ei fod wedi'i gynnwys. Os nad yw hyn yn bosibl, rheswm eglur am hynny i gael ei gofnodi yn lle'r llofnod. Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (15)
Cyflawnwyd yn rhannol. Roedd llofnodion ar 2 o'r 3 ffeil yr edrychwyd arnynt ac nid oedd un ffeil wedi cael ei llofnodi gan yr unigolyn na'r asiantaeth. Nodwyd bod un cynllun wedi cael ei lofnodi gan berthynas i'r person ond ni nodwyd pam nad oedd y person wedi gallu llofnodi drosto ei hun.

2.7 Yr asiantaeth i sicrhau bod cysondeb o ran y gweithiwr/gweithwyr gofal sy'n darparu'r gwasanaeth ar gyfer pob unigolyn. Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (6)
Heb ei gyflawni. Roedd pryder wedi dod i law'r tîm comisiynu ar 17.05.19 oddi wrth berthynas ynghylch y nifer fawr o staff gofal oedd yn cyflawni galwadau a diffyg ymddangosiadol cyfathrebu. Dangosodd y rotâu yr edrychwyd arnynt fod un cleient wedi cael 14 gofalydd gwahanol mewn cyfnod o 2 fis ac roedd un arall wedi cael 25 o ofalyddion mewn cyfnod o bythefnos.

2.8 Goruchwyliaeth neu hapwiriad i gael ei gyflawni o leiaf bob chwarter. Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (36)
Cyflawnwyd yn rhannol. Gwelwyd fersiwn electronig o'r matrics yn ystod yr ymweliad a dangosodd hwn fod goruchwyliaeth ffurfiol yn hwyr yn achos 3 gofalydd. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn dweud 'bydd y staff yn cwrdd i gael goruchwyliaeth un i un gyda'u rheolwr llinell neu swyddog cyfatebol, neu aelod uwch o'r staff, bob chwarter blwyddyn o leiaf'.

2.9 Argymhellir cyflwyno'r proffil 1 dudalen i bob unigolyn sydd eisiau cymryd rhan a nodi yn y ffeil os nad yw eisiau i hwn gael ei gwblhau.
Heb ei gyflawni. Dywedwyd wrth y swyddog monitro contractau fod proffil 1 dudalen wedi'i gwblhau i ryw 10% o'r cleientiaid.

2.10 Rhagor o ystyriaeth i gael ei rhoi i gadw dyddiadau goruchwyliaeth a dyddiadau'r holl hapwiriadau ar yr un daenlen.
Wedi'i gyflawni. Mae'r daenlen a ddefnyddir i gofnodi dyddiadau sesiynau goruchwyliaeth, hapwiriadau ac arfarniadau yn cael ei storio yn yr un ffeil gyda dalenni gwaith ar wahân i bob elfen.

2.11 Wrth adolygu'r dyddiaduron dyddiol, unrhyw gamau gweithredu y mae eu hangen neu sydd wedi'u cwblhau o ganlyniad i gael eu cofnodi.
Wedi'i gyflawni. Roedd yna dystiolaeth yn y dyddiaduron dyddiol a welwyd fod y rhain wedi cael eu harchwilio a bod unrhyw gamau gweithredu yr oedd eu hangen neu oedd wedi'u cwblhau wedi cael eu nodi ym mlaen y llyfr.

2.12 Yr holl staff gofal i gofnodi'n eglur yn y dyddiadur dyddiol pa gamau gweithredu sydd wedi'u cymryd os oes unrhyw bryderon am yr unigolyn, h.y. rhoi gwybod i'r teulu, cysylltu â'r swyddfa ac ati.

Cyflawnwyd yn rhannol. Nododd y ffeil gyntaf y gwelwyd llosg neu grachen ar law dde'r cleient a bod y gofalyddion wedi rhoi plastr arni. Nododd un cofnod y sylwyd ar lwmp ar fron unigolyn a'i fod yn aros am apwyntiad ond ni chofnodwyd a ddywedwyd wrth y swyddfa am hyn. Nodwyd hefyd ar achlysur arall nad oedd y person yn dda ac yr ymddangosai'n fyglyd ac yn wichlyd ond eto, ni ddywedwyd a roddwyd gwybod i'r swyddfa. Cofnododd yr ail ffeil waed yn yr wrin ond ni nododd a oedd unrhyw gamau gweithredu wedi'u cymryd mewn perthynas â hyn. Cydnabu'r swyddog monitro contractau hefyd fod y cofnod dyddiol yn cyfeirio at botel wrin yn hytrach na chathetr: fel y dywedwyd eisoes, mae angen i hyn fod yn gyson ar draws yr holl ddogfennau.

2.13 Ystyriaeth i gael ei rhoi hefyd i ddarparu mwy o wybodaeth yn y cofnodion dyddiol am les cyffredinol y person a sicrhau bod hyn yn gyson yn hytrach na dilyn hyn gyda'r geiriau 'popeth yn iawn wrth adael'.
Wedi'i gyflawni. Roedd y cofnodion dyddiol a welwyd yn ystod yr ymweliad yn rhoi manylion ynghylch lles cyffredinol y person a'r tasgau a gyflawnwyd. Roedd rhai enghreifftiau lle roedd y cofnodion yn fyr iawn ac yn canolbwyntio ar dasgau ond roedd y mwyafrif yn rhoi trosolwg da.

3. Canfyddiadau o'r ymweliad

3.1 Proses cynlluniau gofal a phersonol

3.1.1 Nid oedd unrhyw asesiad cychwynnol yn unrhyw un o'r ffeiliau a welwyd ac er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd dylai hwn cael ei gwblhau'n llawn a'i gadw yn y ffeil cyn i'r pecyn gofal ddechrau.

3.1.2 Cydnabuwyd bod yna rywfaint o wybodaeth fanwl ynghylch anghenion yr unigolyn a'r cymorth yr oedd ei angen h.y. mae'n ddibynnol ar inswlin, yn mwynhau darllen, opera, clecs am enwogion ac operâu sebon. Nododd ffeil arall mai trychedig oedd y person a bod arno angen cymorth gyda holl weithgareddau bywyd pob dydd a'i fod wedi gweithio fel mecanydd ac yn mwynhau rygbi. Roedd y ffeil olaf yn rhoi gwybodaeth am feibion y person sy'n byw mewn gwlad dramor gyda'u teuluoedd.

3.1.3 Nid oedd yr un o'r ffeiliau'n nodi'r amserau galw a ffefrir. Cynghorir i'r ddwy ochr gytuno ar y rhain a'u cofnodi a'u llofnodi er mwyn dangos bod y drafodaeth wedi cael ei chynnal hyd yn oed os nad yw'r union amserau ar gael.

3.1.4 Roedd y wybodaeth wedi'i phersonoli yn fanwl ac yn rhoi darlun o'r hyn oedd yn bwysig i'r unigolyn. Dywedodd un cynllun 'Allaf i ddim cyrraedd fy nghefn a fy nghoesau yn y gawod' a rhoddodd wybodaeth ynghylch yr hyn y gall y cleient ei wneud drosto ei hun i gadw cymaint o annibyniaeth ag sy'n bosibl. Nid oedd y manylion hyn i'w cael yn yr holl ffeiliau a welwyd a chynghorir cynnwys hyn yn yr holl gynlluniau personol.

3.1.5 Nodwyd ar un ffeil bod adolygiad wedi cael ei gyflawni gan y goruchwyliwr gyda'r cleient a'i chwaer. Ymddangosai o'r ail ffeil fod adolygiad wedi cael ei gyflawni yn dilyn sgwrs gyda gwraig y cleient. Nid oedd unrhyw adolygiad yn y drydedd ffeil.

3.2 Recriwtio, hyfforddiant a goruchwyliaeth

3.2.1 Roedd tystiolaeth bod hyfforddiant anorfodol yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau y diwellir anghenion y bobl y gofelir amdanynt. Roedd y matrics hyfforddiant yn nodi cyrsiau fel clefyd Parkinson, preifatrwydd ac urddas, diabetes, epilepsi, camddefnyddio alcohol a sylweddau. Roedd bylchau o hyd yn rhai o'r cyrsiau hyn ond dywedodd y cydgysylltydd fod y corff yn gweithio tuag at y rhain a bod gofalyddion yn cael eu henwebu i ddilyn hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth pan fydd ar gael.

3.2.2 Dywedwyd wrth y swyddog monitro contractau fod hapwiriadau'n cael eu cyflawni i'r holl staff gofal pob 3 mis. Gwelwyd ffurflen monitro gweithiwr gofal ar gyfer aelod o'r staff oedd wedi cael ei llofnodi a'i dyddio gan y goruchwyliwr a'r gofalydd.

3.2.3 Yn y ddwy ffeil staff a welwyd roedd yna gontractau cyflogaeth wedi'u llofnodi, cofnodion cyfweliadau, disgrifiadau swydd a geirdaon yn unol â'r gofynion. Nodwyd yr ymddangosai mai dim ond 1 cyfwelydd oedd yn un o'r ffeiliau a welwyd: mae'n arfer da bod â 2 gyfwelydd o leiaf er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch.

3.2.4 Gwelwyd bod gan un gofalydd 2 fwlch mewn cyflogaeth heb esboniad rhwng 2006 a 2009 a rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Gorffennaf 2015: mae'n ofyniad bod unrhyw fylchau heb esboniad yn cael eu trafod a'u cofnodi yn y ffeil.

3.2.5 Nid oedd unrhyw ffotograffau o'r gofalyddion yn y ffeiliau a phwysleisiwyd ei bod yn ofynnol o dan ddeddfwriaeth newydd y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol fod ffotograff diweddar o unrhyw un sy'n gweithio i'r sefydliad i'w gael yn y ffeil.

3.2.6 Roedd y ddwy ffeil yn cynnwys gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chofnodwyd bod y rhain yn glir ac yn dystiolaeth o gysgodi fel rhan o'u proses sefydlu.

3.3 Sicrhau ansawdd

3.3.1 Yn rhan o'r broses monitro cafodd 10 holiadur eu cwblhau'n uniongyrchol gan bobl sy'n cael pecyn o ofal oddi wrth Radis a/neu eu perthynas er mwyn cael adborth am y gwasanaeth. Cafodd 3 eu cwblhau gyda'r cleient, cafodd 5 eu cwblhau gyda pherthynas a chafodd 2 eu cwblhau gyda mewnbwn oddi wrth y ddau.

3.3.2 Dywedodd 80% o'r bobl y siaradwyd â hwy fod ganddynt ofalyddion rheolaidd. Ychwanegodd rhai fod y cysonder yn dda at ei gilydd, ond y gall fod llawer o newidiadau yn ystod y gwyliau neu ar benwythnosau. Dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod nhw (neu eu perthynas) yn cael eu trin ag urddas a pharch bob amser. Pan ofynnwyd a oedd gan y gofalyddion ddigon o amser i siarad â nhw, atebodd 7 yn gadarnhaol a dywedodd 3 'weithiau' a bod hyn yn dibynnu ar y gofalydd.

3.3.3 Nododd 60% o'r holiaduron a gwblhawyd nad oedd angen gwneud dim i wella'r gwasanaeth. Dywedwyd wrth y swyddog monitro contractau fod yr unigolyn oedd yn cael gofal yn teimlo bod y gofalyddion yn ei ddifetha bob amser. Dywedodd cleient arall ei fod

yn ddiolchgar am bopeth mae'r gofalyddion yn ei wneud a'u bod yn gofyn a oes arno angen unrhyw beth arall cyn gadael. Nododd holiaduron eraill na fydd y gofalyddion yn ceisio annog y cleient i gael cawod os nad yw eisiau un. Dywedodd rhai y gellid gwella'r amserau galw a dywedodd un ymatebydd fod angen mwy o hyfforddiant cyn iddynt fynd allan ar eu pen eu hunain.

3.3.4 Pan ofynnwyd pa sgôr allan o 10 y byddent yn ei rhoi i'r gwasanaeth, dywedodd un y rhoddai 7 iddo, dywedodd dau 8, a dywedodd saith o bobl y rhoddent 10 iddo.

3.3.5 Siaradwyd hefyd â 3 aelod o'r staff dros y ffôn i gael adborth. Dywedodd un y byddai weithiau'n hoffi cael mwy o amser rhwng galwadau ond dywedodd y 3 fod ganddynt ddigon o amser i gyflawni'r hyn yr oedd angen iddynt ei wneud yn ystod y galwadau. Dywedodd pob un fod y rotâu swyddfa yn iawn, eu bod yn cael eu cefnogi gan eu goruchwyliwr, eu bod wedi cael hyfforddiant sefydlu trylwyr gyda chysgodi a bod digon o wybodaeth ar gael yng nghartref y cleient cyn cyflawni'r alwad. Dywedodd un wrth y swyddog monitro contractau ei fod yn teimlo bod yr hyfforddiant sefydlu'n wych a bod Radis yn gwmni gwirioneddol dda i weithio iddo.

3.3.6 Dywedwyd nad oedd copi o'r adroddiad chwarterol gan yr unigolyn cyfrifol wedi cael ei gwblhau ac nad oedd y polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu bob blwyddyn. Esboniwyd y byddai hyn yn cael ei wneud ar ôl cofrestru gyda'r arolygiaeth gofal.

4. Camau unioni / datblygu

4.1 Camau unioni (Y terfyn amser ar gyfer yr holl gamau yw 31 Hydref 2018)

4.1.1 Adolygiadau o'r cynlluniau personol i'r holl gleientiaid i gael eu cyflawni bob 3 mis yn unol â rheoliad y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (16.1). Y terfyn amser gwreiddiol a bennwyd ar gyfer hyn oedd 31 Gorffennaf 2017.

4.1.2 Y Rheolwr i sicrhau bod gan yr holl ofalyddion gymwysterau addas a bod eu hyfforddiant gorfodol yn gyfredol. Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (35)

4.1.3 Gwybodaeth reolaidd ynghylch galwadau hwyr a galwadau a fethwyd i gael ei chyflwyno i'r tîm comisiynu bob chwarter. Contract gofal cartref, cymal 6.6.

4.1.4 Yr holl gynlluniau gofal a chynlluniau personol i gynnwys gwybodaeth gyson. Lle bo angen newidiadau, rhaid cysylltu â'r tîm perthnasol yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol. Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (15) a'r contract gofal cartref, cymal 8.3.

4.1.5 Pob ffeil staff i gynnwys ffotograff diweddar o'r unigolyn yn unol â rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (35, atodlen 1.1.)

4.1.6 Hanes cyflogaeth llawn i fod ym mhob ffeil staff ynghyd â chofnod o'r esboniad am unrhyw fylchau. Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol atodlen 1, rheoliad 35 Rhan 1 (8)

4.1.6 Llofnodion i gael eu sicrhau ar yr holl gynlluniau personol gan yr unigolyn neu gynrychiolydd i roi tystiolaeth ei fod wedi'i gynnwys. Os nad yw hyn yn bosibl, rheswm eglur am hynny i gael ei gofnodi yn lle'r llofnod. Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (15)

4.1.7 Yr asiantaeth i sicrhau bod cysondeb o ran y gweithiwr/gweithwyr gofal sy'n darparu'r gwasanaeth ar gyfer pob unigolyn. Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (6)

4.1.8 Goruchwyliaeth neu hapwiriad i gael ei gyflawni o leiaf bob chwarter. Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (36)

4.1.9 Asesiadau cychwynnol i fod ym mhob ffeil cyn i'r gwasanaeth ddechrau. Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (15)

4.1.10 Dylai adolygiadau chwarterol y cynllun personol gynnwys manylion ynghylch i ba raddau roedd y person wedi gallu cyflawni ei ganlyniadau personol. Rheoliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (16)

4.2 Camau datblygu

4.2.1 Argymhellir cyflwyno'r proffil 1 dudalen i bob unigolyn sydd eisiau cymryd rhan a nodi yn y ffeil os nad yw eisiau i hwn gael ei gwblhau.

4.2.2 Yr holl staff gofal i gofnodi'r eglur yn y dyddiadur dyddiol pa gamau gweithredu sydd wedi'u cymryd os oes unrhyw bryderon am yr unigolyn, h.y. rhoi gwybod i'r teulu, cysylltu â'r swyddfa, gofyn am apwyntiad gyda meddyg teulu ac ati.

4.2.3 Y matrics hyfforddiant i gael ei ddiweddaru i ddileu gofalyddion sydd wedi gadael neu erioed wedi dechrau yn y swydd.

4.2.4 Y Rheolwr i sicrhau bod o leiaf 2 gyfwelydd yn bresennol yn ystod cyfweliadau ffurfiol.

4.2.5 Mae'n arfer da cofnodi'r amserau galw a ffefrir yn rhan o'r asesiad cychwynnol.

5. Casgliad

5.1 Mae cynnydd wedi cael ei wneud ers yr ymweliad monitro blaenorol; mae 3 cham wedi'u cyflawni a 5 wedi'u cyflawni'n rhannol.

5.2 Er bod yna lawer o gamau gweithredu yn dilyn yr ymweliad monitro, mae hyn oherwydd y ddeddfwriaeth newydd sy'n dod i rym a'r defnydd o'r offeryn monitro diwygiedig.

5.3 Fel y nodir yng nghorff yr adroddiad, mae angen gwaith i ddiweddaru hyfforddiant gorfodol i'r holl ofalyddion ac mae angen diweddaru'r matrics er mwyn iddo adlewyrchu'n gywir yr holl gyflogeion presennol a'r cyrsiau a ddilynwyd.

5.4 Cafwyd adborth gwirioneddol gadarnhaol oddi wrth bobl sy'n cael gofal gan y sefydliad, eu perthnasau ac aelodau o'r staff, a ddangosodd y gofal ychwanegol sy'n cael ei ddarparu gan rai gofalyddion.

5.5 Hoffai'r swyddog monitro contractau achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb oedd yn ymwneud â'r gwaith o gasglu'r wybodaeth am eu hamser a'u croeso. Yn unol â'r strategaeth monitro, cynhelir yr ymweliad monitro nesaf ym mis Mehefin 2020 oni fernir bod angen cynnal un cyn hynny.

Awdur: Amelia Tyler
Swydd: Swyddog Monitro Contractau
Dyddiad: 14 Awst 2019

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael trwy safle rhyngrwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau papur o'r adroddiad ar gael hefyd i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd os ydynt yn gofyn i'w gweld.